# Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llanfrothen Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

BDO

## Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw  Cyngor Cymuned Llanfrothenat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd.  Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

## Materion a godwyd

- Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth
- Cofrestr Asedau

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi gan fod mân gamsyniadau ar y ffurflen flynyddol yr ydym yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt er mwyn iddynt beidio â digwydd eto mewn blynyddoedd i ddod.

**Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

*Beth yw'r mater?*

Nid yw'r cyngor wedi ateb blwch 14 ar gyfer 2019 mewn camsyniad yn Adran 1 y ffurflen flynyddol. Credwn, ar sail gwybodaeth y flwyddyn flaenorol, y dylai'r cyngor fod wedi ateb 'Amh'.

*Pam mae'r mater wedi cael ei godi*

Nid yw'r datgeliad ar y ffurflen flynyddol wedi cael ei gwblhau, gan ein bod yn credu nad yw'r cyngor yn unig ymddiriedolwr i unrhyw elusen.

*Beth yw'n hargymhelliad i chi?*

Dylai'r cyngor sicrhau ei fod, yn y blynyddoedd i ddod, yn ateb 'Na' neu 'Amh', i ddangos nad yw'r cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ac nad yw'n gyfrifol am reoli cronfeydd ymddiriedolaeth neu asedau.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

**Cofrestr Asedau**

*Beth yw'r mater?*

Mae cofrestr y cyngor yn anghyflawn ac nid yw'n cynnwys peth neu'r cyfan o'r wybodaeth isod ar gyfer pob ased sydd gan y cyngor:
- dyddiad caffael;
- cost prynu, a
- lleoliad yr asedau.

Mae'r cyngor mewn perygl o beidio â diogelu ei asedau.

*Pam mae'r mater wedi cael ei godi*

Rhaid i'r cyngor ddiweddaru ei gofrestr asedau sefydlog i gynnwys dyddiad caffael, cost prynu a lleoliad pob ased sydd ganddo cyn gynted â phosib neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

*Beth yw'n hargymhelliad i chi?*

Dylai bod cofrestr asedau gan y cyngor i helpu sicrhau bod gwerth yr asedau a'r buddsoddiadau a gofnodir yn gywir, cyn belled â bod hynny'n bosibl, ac i sicrhau bod y cyngor yn diogelu ei asedau. Dylai'r Archwilydd Mewnol ddilysu cywirdeb cofrestr o'r fath yn ei adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol y cyngor.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr

**Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.**

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:25 Ionawr 2021